Fabian Tract No. 87.

# SOSIALAETH A DYSGEIDIAETH CRIST.

GAN Y

PARCH. JOHN CLIFFORD, M.A., D.D.

CYHOEDDEDIG GAN

Y FABIAN SOCIETY.

PRIS CEINIOG.

LLUNDAIN:

I'W GAEL ODDIWRTH Y FABIAN SOCIETY, 3 CLEMENT'S INN, W.C.

PUBLISHED JUNE 1899. REPRINTED JULY 1908.

# THE
# FABIAN SOCIALIST SERIES

**consists of a revised, collected, and classified edition of some of the most valuable of the famous 'Fabian Tracts' in a style more suitable for the general reading public, and supplying in a handy and attractive form the best and most authoritative thought on 'What Socialism Means.' Each booklet contains not less than 96 well-printed pages, good paper and good type, and is supplied in two forms, i.e., in attractive wrappers at 6d. each, nett, and in quarter cloth boards, gilt top, at 1s. each, nett. Postage 1d. and 2d. each respectively.**

VOLUMES NOW READY:

I. SOCIALISM AND RELIGION. CONTENTS: (1) Christian Socialism, by the Rev. Stewart D. Headlam. (2) Socialism and Christianity, by the Rev. Percy Dearmer. (3) Socialism and the Teaching of Christ, by the Rev. John Clifford. (4) A Word of Remembrance and Caution to the Rich, by John Woolman, of the Society of Friends.

II. SOCIALISM AND AGRICULTURE. CONTENTS: (1) The Village and the Landlord, by Edward Carpenter. (2) State Aid to Agriculture, by T. S. Dymond. (3) The Secret of Rural Depopulation, by Lieut.-Col. D. C. Pedder. (4) The Revival of Agriculture, by the Fabian Society.

III. SOCIALISM AND INDIVIDUALISM. CONTENTS: (1) The Difficulties of Individualism, by Sidney Webb. (2) The Moral Aspects of Socialism, by Sidney Ball. (3) The Impossibilities of Anarchism, by G. Bernard Shaw. (4) Public Service *versus* Private Expenditure, by Sir Oliver Lodge.

IV. THE BASIS AND POLICY OF SOCIALISM. CONTENTS: (1) Facts for Socialists, by the Fabian Society. (2) Capital and Land, by the Fabian Society. (3) Socialism: True and False, by Sidney Webb. (4) Twentieth Century Politics, by Sidney Webb.

---

**BALLADS AND LYRICS OF SOCIALISM. By E. Nesbit.** Paper 6d. net (postage 1d.); boards 1s. (post. 1½d.)

BRITISH LIBRARY OF POLITICAL & ECONOMIC SCIENCE
PAMPHLET COLLECTION
BP161511(87)

---

LONDON:

**THE FABIAN SOCIETY, 3 CLEMENT'S INN, STRAND, W.C.**

Christian socialism.

# Sosialaeth a Dysgeidiaeth Crist.

*Araith a draddodwyd gan* Dr. John Clifford *yng Nghyfarfod Blynyddol y "Christian Socialist League," yng Nghapel Westbourne Park, Llundain, Chwefror,* 1895.

Dadl a ddefnyddir yn fynych gan y rhai sydd yn erbyn cymhwyso egwyddorion Sosialaeth at gyfundrefn llafur ein gwlad ydyw fod y fath gynllun yn groes i ddysgeidiaeth ac ysbryd yr Arglwydd Iesu Grist.

Saif Cristionogaeth, meddant, ar dir llawer uwch na'r bywyd cyffredin hwn a'i lafur blin, ac mae ei nod yn rhywbeth annhraethol uwch na'r diben o derfynu cwerylon cyfalaf a llafur, o rannu enillion a cholliadau yn deg a chyfiawn, o ad-drefnu cynhyrchiad angenrheidiau bywyd a'r rhaniad o honynt, o ymladd yn erbyn llywodraeth plaid beryglus o wyr cyfoethog, a chyfryngu heddwch rhwng y lluoedd a weithiant am gyflog a'r dosbarth bychan a dal iddynt am eu gwaith, dosbarth sydd yn myned yn llai o ddydd i ddydd. Nid yw Cristionogaeth "yn pregethu efengyl o wynfydedigrwydd tymhorol." Ei hamcan yn hytrach yw gweini ar ysbryd a glwyfir gan bechod, adfer tawelwch i'r gydwybod a losgir gan euogrwydd, a pharatoi ar gyfer angeu a thragwyddoldeb. Nid oes a wnel hi a'r fuchedd wibiog hon sydd mor fer fel "yr ymdebyga i'r defnyn gwlith ar ei daith beryglus o frig y pren," ond a dadblygiad diderfyn yr ysbryd dynol drwy dragwyddoldeb Duw, yng nghartref Duw. Er cadarnhau'r dyb y dylid llwyr anghofio'r bywyd presennol hwn ac ymgolli yn y syniad o fawredd anferth a diamgyffred y bywyd i ddyfod fel y'i datguddir yng Nghristionogaeth, dyfynnir gair yr Iesu: "Llafuriwch nid am y bwyd a dderfydd eithr am y bwyd a bery i fywyd tragwyddol, yr hwn a ddyry Mab y dyn i chwi: canys hwn a seliodd Duw Dad."

Gan hynny, edrycha llawer i Gristion gyda gradd nid bychan o amheuaeth ar eglwysi a feiddiant astudio cyflwr y bobl o'u cwmpas yn ei agwedd gymdeithasol a gwleidyddol, ac a gyffyrddant megis a blaenau eu bysedd a'r cwestiwn o roi terfyn ar dlodi, ac a geisiant ddyrchafu'r dosbarth gweithiol drwy foddion mwy cyfiawn a llesol na'r dull arferol o roi elusen yn awr ac eilwaith, neu ddigonedd o gawl y gauaf, yn ol mympwy y rhoddwr. Llym a miniog yw eu hiaith pan y condemniant weinidogion a gredant ac a ddysgant fod deddfau Duw yn cyrraedd i bob man, hyd yn oed at gyflogau a phrisiau, ac yn treiddio hyd at weith-dai a chyflwr afiach ffatriau a siopau dillad: eu dadl gyffredin ydyw fod y rheswm dynol mor gyfyng a chul ei amgyffrediad fel nas gall pregethwr fod yn ffyddlon i genadwri Crist am bechod a phrynedigaeth, os myn ar yr un pryd

"greu terfysg" drwy son am y pwysigrwydd o roi "cyflog teg a digonol" i'r gweithiwr, neu lafurio er ad-drefnu cyfundrefn llafur ar seiliau cyfiawnder a brawdoliaeth.

## Ayw Sosialaeth yn Gristionogol?

Dywed Professor Flint, gwr dwfn ei ddysg a mawr ei allu, yn ei lyfr ar Sosialaeth, un o'r llyfrau mwyaf annheg ac anfoddhaol a ddarllennais erioed: "Gellir profi fod yr hyn a elwir yn Sosialaeth Gristionogol yn anghristionogol cyn belled ag y mae yn sosialaidd, neu yn an-sosialaidd cyn belled ag y mae yn Gristionogol yng ngwir ystyr y gair,"* ac eto, "cyn belled ag y mae Sosialaeth yn ymdrin a chynlluniau o drefniad cymdeithasol a gwleidyddol yn unig, nid oes dim a wnel Cristionogaeth a hi. Gall Cristion, wrth gwrs, eu beirniadu a'i beio, nid fel Cristion, ond yn unig am resymau cymdeithasol neu wleidyddol. A ddylai'r tir fod yn eiddo i ychydig ai i lawer, ai i bawb ai i'r Wladwriaeth; a ddylid ei reoli gan undebau o gyd-weithredwyr, ai ynte ei adael yn llwyr yn nwylo personau unigol; ai o gyflog penodedig ai o enillion ei lafur y dylai'r gweithiwr dderbyn ei dal, a ddylid rhannu cyfoeth rhwng pawb yn gyfartal ai peidio: nid yw y rhai'n i gyd yn gwestiynau o unrhyw bwys i fywyd y Cristion nac ychwaith yn gwestiynau y gall Cristionogaeth eu hateb." †

I mi nid yw hyn amgen na Phaganiaeth ddigymysg, yn groes i ysbryd Crist yn ogystal ag yn dwyllodrus a chamarweiniol. Clywir llais mwy awdurdodol fyth o gadair y Pab (Leo XIII.) yn cyhoeddi fod "cyfeiliornadau cymdeithasol," fel y gelwir hwynt, o'u hanfod yn elynion i Eglwys Crist; ac y mae'r Gwir Barchedig Abbot Snow, O.S.B., yn myned mor bell a dweyd: "Arweinir Sosialwyr i ddiddymu crefydd er cael gwared a'i gweinidogion. I ddosbarth y llywodraethwyr y perthynant hwy, y gweinidogion, ac felly bydded iddynt ddiflannu gyda'r lleill. Gan hynny tuedd y gwaith o wastatu popeth a diddymu pob awdurdod annibynnol ydyw llwyr ddifodi crefydd a'r addoliad ffurfiol o Dduw, ac felly cam yng nghyfeiriad Anffyddiaeth yw Sosialaeth." ‡

Nis gellir ameu nad effaith y geiriau uchod ydyw fod nifer o Gristionogion a fwynhant fywyd yn hamddenol yng nghanol pob cysur bydol, gwyr sydd nid yn unig yn meddu'r "addewid am y bywyd sydd yr awrhon," ond hefyd wedi gweled cyflawniad gogoneddus o'r addewid hon, yn credu mai un o brif ddyledswyddau cymdeithas fel ein "*Christian Socialist League*" ydyw rhoi cyfrif o honi eu hunan ger bron brawd-lys ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist.

## Y Cwestiwn Cymdeithasol.

II.—Gadewch i mi yn gyntaf oll yn y fan hyn gydnabod yn rhwydd fod y Cristionogion a'r Eglwysi sydd yn ein herbyn yn addef y caniata Cristionogaeth Crist Iesu i ddyn lefaru yn erbyn

* *Socialism.* By Professor Robert Flint; p. 441.

† *Socialism.* By Professor Robert Flint; pp. 452-3.

‡ *The Catholic Times*, August 10, 1894.

diffygion cymdeithas yn yr oes hon, a dinoethi agwedd druenus ein sefyllfa bresennol. Yn wir honnant yn groew fod Crist yn condemnio pob arwydd o hunanoldeb yn y *person unigol*, ac yn cefnogi pawb a ymladdo o ddifrif yn erbyn trachwant a gwancusrwydd yn y *person unigol*, ac yn cyfiawnhau y geiriau mwyaf miniog a gerwin y gellir eu harfer yn erbyn y drygau a grea ysbryd cydymgais yn y *person unigol*. Cydsynia pob Cristion a'r mynegiadau hyn o ddigllonedd cyfiawn, a chânt gryn fwynhad wrth weled tywallt phiolau llid yr areithwyr uwch ben eu cymdogion; a dechreua rhai dybio nad yw "casglu aur ynghyd" ymhlith y rhinweddau pennaf, ac fod rhywbeth feallai allan o'i le yn syniadau pobl y canol-oesoedd a gredent fod y geiriau hynny o eiddo'r Meistr; "Y mae y tlodion gyda chwi bob amser," yn ein dysgu fod tlodi i barhau hyd byth o anghenraid er sicrhau gwrthrych i elusen achlysurol y cyfoethog. Erbyn hyn cyfaddefa llawer Cristion, os nad pob Cristion, *fôd* cwestiwn cymdeithasol, ac y dylent wneyd rhywbeth i'w ateb, pe ond yn unig son am dano neu gondemnio rhywbeth neu rywun. Gwelant fod gagendor mawr rhwng y tlawd a'r cyfoethog mewn ystyr gymdeithasol, er eu bod yn byw ac yn symud o fewn cyrraedd i'w gilydd. Cwynant yn dost o herwydd diffyg lle yn nhai'r gweithwyr, a gofynnant sut y gallwn ddisgwyl purdeb ac iechyd, gweddeidd-dra a chysur o dan y fath amglychiadau gwarthus. Yma yng ngorllewin Llundain, y *gorllewin* meddaf, gellir gweled ty ag iddo wyth ystafell ac un ystafell fechan heblaw hynny yn cynnwys dim llai na dau berson a deugain; dyma engraifft o'r modd y llygrwn y drychfeddwl o gymdeithas a roddes Duw i ni, ac y dinystriwn had llwyddiant cymdeithasol drwy wneyd bywyd teuluaidd gweddaidd a chysurus yn amhosibl.* Y mae'r ffeithiau dychrynllyd a argreffir ar ein meddyliau gan y cynulliadau mawrion o lafurwyr anfedrus, methiantus, a diobaith, y byddinoedd ofnadwy o wyr allan o waith yn gorfodi Cristionogion i feddwl ac i ddweyd; "Rhaid gwneyd rhywbeth." Nid cwestiwn ydyw o "ddigon o le yn uwch i fyny" i ddynion o natur gyndyn, o feddwl clir ac ewyllys gadarn, ond o'r "cryf yn dwyn gwendidau'r gwan," a brawd yn gofalu am frawd. Y gwahaniaeth tost sydd rhwng dosbarth a dosbarth mewn cymdeithas, dylanwad gormesol y ddiod feddwol, y pechod o hap-chware, y dirywiad a'r trueni a ddilyna briodasau cynnar, llygredigaeth benywod, "cydgasgliad miloedd o weithwyr yn ysglyfaeth i'r 'chwyswr'"—drygau sy'n cynhyddu o ddydd i ddydd, addefir fod rhyw gysylltiad anorfod rhwng y rhai'n a'r gyfundrefn fawr hunanol sydd yn rheoli llafur heddyw: cipir gwyr, gwragedd, a phlant i fyny ac ysigir hwynt i farwolaeth gan droion chwim olwynion y peirianwaith cystadleuol hwn, a theflir hwynt ymaith i drengu yn y tloty, neu i fod yn faich ar ymdrechion cynnar eu plant. Gan hynny mae aml i ysbryd craff yn barod i dderbyn geiriau llym Ruskin, a dywedyd fod "dal Rhagluniaeth yn gyfrifol am yr adeilad drylliedig a digynllun o fywyd cymdeithasol a osodwyd i fyny gan wyr yn rhyfela mewn cydymgais faleisus a'u cymdogion yn un o'r

* Gwel Fabian Tract 5, *Facts for Socialists*; 1d.

ffyrdd mwyaf trahaus ac annuwiol y gellir cymeryd **enw Duw yn** ofer."*

## Yr Ymdeimlad o Frawdoliaeth Ysbrydol.

III.—Myn rhai o ddisgyblion Crist fyned ymhellach na hyn a rhoddi gwasanaeth personol. Arweinir hwynt gan gydymdeimlad gwirioneddol, a llawn o gariad, i dai y tlodion a'r cleifion i'w symbylu i fod yn amyneddgar, i daflu pelydryn o oleuni siriol ar eu bywyd, i godi calon y cystuddiedig, i gynnal ysbryd y gweithwyr yn eu hymdrech ffyrnig a llafur blin ac eisieu. Credant fod Cristionogaeth yn gorchymyn iddynt bregethu cyfiawnder, cariad, a brawdoliaeth. Maent hyd yn oed yn cynllunio cario masnach ymlaen yn ol egwyddorion cydweithrediad. Danghosant mai goruchwilwyr ydym a dygant ar gof i ddynion y gofynnir iddynt roddi cyfrif i'w Tad nefol am yr oll sydd ganddynt a'r defnydd a wnant o hono. Iddynt hwy mae unoliaeth cymdeithas yn beth pur sylweddol, a brawdoliaeth dynolryw yn amgen na brawddeg yn unig. Maent wedi gweled Duw yng Nghrist Iesu, ac iddynt hwy mae'r Ymgnawdoliad yn ddatguddiad o'u dyledswyddau tuag at eu cyd-ddynion, ac wedi eangu eu syniad am bechod drwy ddangos y gellir cymhwyso'r gair at gamweddau'r plwy a'r ddinas, y genedl a'r holl ddynoliaeth yn ogystal a'r person unigol. Nid oes neb yn byw iddo ef ei hunan yn unig. Gwrth-grist ydyw Cain. Un ydyw dynolryw. Mae holl deyrnasau'r byd i ddod yn un deyrnas i'n Duw ni a'i Grist Ef. Nid yw deddfwriaeth a llywodraeth gwlad y tu allan i'w drefn Ef: a gellir argraffu ei ewyllys Ef hyd yn oed ar gyfundrefn llafur yr oes wareiddiedig hon. Y mae hwn yn gyfnewidiad dirfawr; ac y mae'r aelodau hynny o Eglwys Crist a deimlasant ddylanwad y deffroad, a'u dyledswydd fel rhan o gymdeithas, eisoes yn rhoddi eu hargraff ar ddyfodol llafur ac ar fywyd y byd.

## Cristionogion yn Myned ar Wahan.

IV.—Ond pan y down i son am gynllun cymdeithasol, am y ffordd y dylid ad-drefnu llafur y wlad, yna gofynnir a ydyw y cwrs a gymerwn yn ol egwyddorion Crist, ac yn debyg o ddarparu'r *corff goreu i ysbryd Crist breswylio ynddo*. Yn y fan yma, ar y trydydd cam yr ydym yn ymadael a'n gilydd. O ddydd i ddydd mae Cristionogion yn fwy parod i gydweled a chydsyniad a'u gilydd; (*a*) yn eu gelyniaeth tuag at chwant golud ac anghyfiawnder yn y person unigol; (*b*) yn eu cydymdeimlad a'r werin a'u hymdrechion personol drostynt; ond ant ar wahan (*c*) gyda golwg ar *sail* ad-drefniad cyfundrefn llafur. Pan y dywed pleidwyr Sosialaeth wyddonol neu Gydfeddiannaeth; (*a*) y dylid sylfaenu llafur y wlad drwy drosglwyddo'r tir a'r holl offerynau sy'n angenrheidiol at gynhyrchu rheidiau bywyd allan o ddwylo personau unigol i feddiant corff y bobl; (*b*) y dylid rheoli'r cynhyrchiad hwn nid yn ol mympwy a gallu personau unigol ond o dan lywodraeth corff y bobl; (*c*) y dylid rhannu cynnyrch llafur i bawb a gymero ran yn y gwaith yn **ol**

* *Time and Tide*. By John Ruskin; p. 9.

egwyddorion cyfiawnder perffaith, h.y.* yn ol cyfartaledd gwerth; pan y dywedwn hyn, yna y'n cyhuddir ni o fod yn groes i ddysgeidiaeth yr Athraw.

Yn awr peidied neb a chamddeall hanfod a natur Cydfeddiannaeth. Ni ofynnir i'r person unigol ymgolli yn y Wladwriaeth; ni cheisir dileu'r teulu, na llwyr ddiddymu eiddo personol; nid amcenir dwyn llenyddiaeth, celfyddyd a chrefydd o dan lywodraeth corff y bobl; ni fwriedir creu chwyldroad sydyn drwy ddymchwelyd holl beirianwaith y gyfundrefn bresennol; ond ar ol dwfn astudio hanes tyfiant a chynnydd masnach a llafur, ceisir cyflymu dadblygiad y gyfundrefn bresennol fel y gallo ymryddhau oddiwrth y diffygion a'r drygau a berthyn iddi yn awr, a chyflawni ei phwrpas dwyfol drwy gyfoethogi holl fywyd dynolryw. Ceisia adeiladu corff mwy addas i enaid dysgeidiaeth Crist, ac ysbryd Ei fywyd a'i farwolaeth, nag ydyw'r gyfundrefn bresennol o gystadleuaeth ffyrnig drwy'r hon y mae bron yn amhosibl i ni glywed Ei lais a theimlo Ei allu er cymaint Ei ymdrech i gyrraedd ein calon.

## A Ydyw Cydfeddiannaeth yn bosibl?

V.—Y mae gennyf bob hawl i dybio nad ydyw'r gyfundrefn bresennol i barhau am byth heb gyfnewid. Y mae Cydfeddiannaeth yn bosibl beth bynnag. Mynych yr anghofir mai peth pur ieuanc yw'r drefn bresennol o fasnachu. Fel plentyn dibrofiad prin y mae eto wedi treulio blynyddau cyntaf ei hoes. Nid oes angen na rheswm dros gredu fod y ffordd sydd gennym yn awr o drefnu llafur a rhannu ei gynhyrchion i barhau fel y mae heb newid agwedd. Oes Unigoliaeth† ydyw hon, a'i chymdeithasau a chwmniau o wyr cyfalaf yn eistedd wrth eu byrddau gwyrddion, ac yn arolygu symudiadau cannoedd o lafurwyr nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad a'u gilydd ond yr hyn a eilw Carlyle yn "cash-nexus:"‡ a dichon y daw terfyn ar ei gyrfa ac y llenwir ei lle gan gyfundrefn wladol o gydweithrediad llwyr, o dan arolygiad y Wladwriaeth. Gwelwn eisoes arwyddion amlwg o duedd yn y cyfeiriad hwn; mae'r Wladwriaeth yn barod yn arolygu ceidwaid heddwch y wlad, yn ymgymeryd a threfnu holl waith y Llythyrdy, mae'r Cynghorau Trefol yn mynnu darparu eu hunain er sicrhau cyflenwad o nwy, dwr, a goleuni trydanol, ac yn cymeryd meddiant o'r "tramways;" mae'r Llywodraeth yn cyflogi llafur yn Woolwich, yn nociau Portsmouth, ac yn ffatriau Enfield; gorfodir rhieni i roi addysg i'w plant, telir o arian y wlad am athrawon i blant y wlad, defnyddir y trethi er darparu baddau cyhoeddus, tai golchi, parciau, gerddi, arddangosfeydd darluniau, amgueddfeydd, yspytai, a gwallgofdai. Y mae hyn oll yn bosibl.

* *Socialism: its Nature, Strength and Weakness.* By Professor R. T. Ely; p. 9, *et seq.*

† Yr athrawiaeth o "bawb drosto ei hun yn yr ymdrech am fywyd, a'r gwan i'r clawdd."

‡ "Cash-payment for the sole nexus is not, and never will be, a practicable law of union for a society of men."—Carlyle, *Past and Present*, Book I., ch. vi.

"Never on this earth was the relation of man carried on by cash-payment alone."—*Ibid.*, Book III., ch. x.

Addefwn yn rhwydd fod y natur ddynol yn bur gyndyn: ond serch hynny gall bywyd cymdeithasol Prydain Fawr ymsymud yn raddol ymlaen o'r ffurf wan o Gydfeddiannaeth sydd eisoes mewn bod i un mwy sylweddol a reola holl beirianwaith y rhan anianol o'n bywyd, ac a feithrina yr agwedd honno o fywyd tymhorol all fod yn sylfaen gadarn i'r adeilad ysbrydol sydd yn graddol godi.

Dywedodd Mr. Robert Wallace mewn erthygl a ysgrifennodd ychydig amser yn ol: "Nid oes modd yn y byd sefydlu'r cynllun cydfeddiannol." Yn ei farn ef, "ni chymer gwr cyfalaf ei ddinystrio." Yn ddiameu mae'r person hwn yn sicr o wneyd ymdrech gyndyn rhag ei ddifodi, a gall lwyddo, er nad yw hyn yn debyg gan rymused a chryfed y nerthoedd cymdeithasol anferth sydd yn awr ar waith. Ond nid oes dim a wnelom ni a phosibilrwydd Cydfeddiannaeth. Tybiwn y gellir cymhwyso'r hyn a eilw Mr. Hayes, yn ei *Chwyldroaa Mawr 1905*, yn "nod synnwyr cyffredin" at orchwylion masnachol y genedl, ac y sefydlir cynllun syml Cydfeddiannaeth yn lle'r gymysgedd wallgof annhrefnus ac aneffeithiol sydd wedi methu mor llwyr a chyfarfod gofynion symlaf cymdeithas wareiddiedig.

## Yr Hyn a Wnelai Cydfeddiannaeth.

Gan fy mod felly yn honni nad oes dim yn egwyddorion Cristionogaeth yn erbyn y cyfnewidiad hwn ac yn tybio fod y fath gyfnewidiad yn bosibl, ceisiaf brofi fod gan y cynllun cydfeddiannol bedwar o leiaf o ragoriaethau a ddengys ei fod yn fwy cydweddol a chydnaws a dysgeidiaeth Iesu Grist nag ydyw'r dull presennol o drefnu bywyd tymhorol dynolryw—(1) Tyn ymaith achosion llawer o ddrygau cymdeithas ddiweddar; (2) hyrwydda yr ymdrech am fywyd a chyfyd hi i dir uwch a mwy ysbrydol; (3) dyry well amgylchedd i ddadblygiad dysgeidiaeth Crist am gyfoeth a brawdoliaeth; (4) meithrina ynnom syniadau uwch am deilyngdod dynol a chymdeithasol drwy ddyrchafu'r nod yr amcenir ei gyrraedd. Ni wadaf fod i'r gyfundrefn "unigol" ei manteision hithau hefyd. Gwn yn eithaf ei bod wedi meithrin a dadblygu'r gallu masnachol rhyfeddol a welwn gan ychydig o'u gweithwyr mwyaf nodedig, y gallu a wnaeth Brydain Fawr yn frenhines masnach y byd ddeng mlynedd-ar-hugain yn ol. Mae wedi creu to o dywysogion masnach, marsiandwyr, a dynion nad oes eu bath am allu i ddadblygu ac i borthi'r galwad am bethau newydd. Y mae wedi rhoi cyfleustra i wyr anturiaethus eangu cylch eu masnach mewn glo a haiarn, bwyd a dillad, peiriannau a newyddion, a threfnu moddion i ddod a chynnyrch y byd at ein drysau a'i newyddion at ein byrddau. Mae wedi porthi uchelgais mewn ffordd gyfreithlon ac wedi achub dynion o feddiant segurdod, wedi bywhau eu hymdeimlad o gyfrifoldeb, ac wedi hyfforddi, disgyblu a chyfoethogi gallu dyn i ddyfeisio a masnachu.

Ni fynnem am un ennyd ollwng y manteision hyn oddiar gof; ond nis gallwn beidio sylwi nad yw hon fel cyfundrefn wedi gwneyd ond ychydig i symbylu ein dymuniadau mwyaf anhunanol, nac wedi meithrin y serchiadau goreu yn ein mynwes. "Dros hunan" ac nid "dros eraill" yw ei nod. Mae'n fwy cydweddol a'r syniad a ystyria fywyd yn ymladdfa nag a'r syniad Cristionogol am dano. Fe'n

harwain i ymwthio ymlaen heb dosturi na thrugaredd yn hytrach nag i lywodraethu a ffrwyno ein hunain. Cyfarwydda ni nid i gynorthwyo ein gilydd fel brodyr, ond i ddifetha ein cydymgeiswyr ac i wthio ymaith bawb sydd yn cystadlu a ni. Yn lle ein symbylu i gydweithredu a'n gilydd mewn ymdrech i achub a chyfoethogi bywydau eraill, ei thuedd ydyw peri i'w llywodraethwyr anghofio hawliau eu cyd-ddynion, nes y mae'n rhaid galw ar fraich y gyfraith i estyn cymorth i blant mewn pyllau glo a ffatriau, i amddiffyn a noddi merched gweiniaid, i leihau nifer oriau llafur, ac i drefnu fod y gweithiwr yn gallu cyflawni ei waith o dan amgylchiadau mwy manteisiol i'w iechyd. A oes dichon condemnio syniadau'r unigolydd am gwestiynau llafur mewn modd mwy llym a garw nag yng ngeiriau Mr. John Morley, pan yr addefa yn ei lyfr ar *Fywyd Cobden*: "Y mae Gwladlywiaeth ddiweddar wedi penderfynu heb os ac onibai nad yw cystadleuaeth ddilyffethair ar ran personau unigol yn egwyddor y gellir ymddiried rheoliad llafur iddi"? Gwir yw y rhydd unigoliaeth ddigymysg bob mantais i'r cryf ac na chynnyg unrhyw gynhorthwy i ddwyn beichiau'r gwan. Os yw hyn i'r gradd lleiaf mewn cywair a meddwl Crist, yna rhaid i mi gyfaddef fy mod wedi ffaelu yn llwyr a darllen ei gynnwys rhyfeddol yn iawn.

Ar y tu arall y mae Cydfeddiannaeth os nad ydyw yn cyfnewid y natur ddynol yn tynnu ymaith *achos llawer o'r drygau a flina gymdeithas yn awr*. Lleihâ nifer temtasiynau bywyd a gwanhâ eu nerth. Trwy roddi gwaith i bawb diddyma'r segurwr, ac er na fydd y gwaith mor galed a chynt nac yn gofyn am gymaint o gyfrifoldeb oddiar rai personau unigol, ac felly heb fod mor fuddiol fel disgyblaeth foesol i'r ychydig hyn, eto bydd yn gam tuag at ateb gweddi Browning:

> "O Dduw! na chrea gewri mwyach,
> Dyrchafa ddynolryw."

Dysg Hesiod mai "gwaith yw yr unig ffordd i ragoriaeth" ac "nad oes gywilydd mewn llafur; segurdod sydd gywilyddus." Mae bywyd heb ymdrech ynddo yn annioddefol ac yn arwain i ddrwg tu hwnt i bob dychymyg. Ychwanega Unigoliaeth at nifer segurwyr o flwyddyn i flwyddyn; gesyd Cydfeddiannaeth i bawb yn ddiwahaniaeth ei ran o'r llafur a'i ran o'r gwobrwy hefyd.

Gan fod rhaid gweithio ofer yw lladrata. Ni cheir dim budd mwyach drwy gamddarlunio ein sefyllfa. Mae chwant anniwall am gyfoeth "allan o waith." Nid oes lle nac achos i dwyll. A nifer troseddau yn erbyn eiddo yn llai o ddydd i ddydd. Bydd terfyn ar lygredigaeth merched cyn belled ag y mae hyn yn effaith angen ac eisieu. Dyma ateb i gwestiwn dyrys "y rhai allan o waith," ac ychwanegir llawer at y posibilrwydd o wneyd bywyd dyn yn fwy dyrchafedig ac urddasol. Yn sicr y mae hyn oll mewn cywair perffaith ag athrawiaeth ac ysbryd yr "Hwn a ddaeth i geisio ac i gadw y rhai a gollasid."

## Dyrchafu'r Ymdrech Am Fywyd.

VI.—Gwelir arwydd arall o'r berthynas agos sydd rhwng Cydfeddiannaeth a meddwl Crist yn y ffaith fod Cydfeddiannaeth *yn*

*dyrchafu'r ymdrech am fywyd ac yn ei gwneyd yn fwy urddasol.* Nid yw yn diddymu'r ymdrech, ond yn ei chodi i dir mwy teilwng drwy leihau'r rhan honno o'r gwaith a berthyn i gynheddfau isel ac anifeilaidd y natur ddynol, a gadael dyn yn rhydd i gyflawni llafur mwy diwylliedig byd y meddwl a'r galon, ac i "geisio yn gyntaf Deyrnas Dduw a'i gyfiawnder Ef." Dywed Benjamin Kidd: "Mae gan Sosialaeth wirioneddol un nod yn wastadol o'i blaen, at yr hwn y cyrcha ac yr arwain ei holl fesurau yn uniongyrchol, neu yn an-uniongyrchol. Y nod hwn yw rhoi terfyn unwaith am byth ar yr ymdrech bersonol am fywyd sydd yn y byd nid yn unig er dechreuad cymdeithas, ond mewn rhyw ffurf neu gilydd er dechreu bywyd ei hun." Ond credaf fod syniadau Professor Drummond yn fwy cyflawn, ac felly yn fwy cyfiawn pan y dywed: "Nid yw rhyfel amgen na ffurf ddiweddar ar yr ymdrech am fywyd. Fel y daw nodweddion uchaf cymeriad dyn yn fwy i'r amlwg ac y ceir mwy o fwynhad yn yr arfer o honynt, cyfnewidia ffurf yr ymdrech a daw yn fwy dyrchafedig. Un ffurf yw'r ymdrech fasnachol. Un arall yw'r ymdrech foesol. Rhaid i'r gyntaf gilio o flaen yr olaf. Rhaid i'r ymdrech anifeilaidd am fywyd beidio a bod. O dan symbyliad y nodau a esyd o'i flaen, bydd dyn yn wastadol yn ymestyn tuag at i fyny, a chaiff ddadblygiad pellach o dan y ffurf o ymdrech gymdeithasol a moesol ac ysbrydol."

Gwir yw y gair: "Gynted y digonir ein hanghenion cyntaf, daw galwad ac angen am bethau uwch." Pan fyddo ei holl fryd ar "y pethau sydd ar y ddaear," nis gall dyn geisio'r "pethau sydd uchod." Wedi ei rwymo wrth gerbyd llafur am un-awr-ar-bymtheg yn y dydd nid yw ei fywyd ond cwsg a llafur yn unig, bywyd anifail bron o anghenraid. Ond dyry Cydfeddiannaeth iddo hamdden i ddiwyllio ei gymeriad; ni thrafferthir ac ni phoenir ef gymaint gan lafur corfforol llethol a blin, fel nad oes ganddo na chyfleustra nac ychwaith nerth i gyflawni llafur uwch yr ysbryd ar ran y bywyd sydd fywyd yn wir, ond y mae mor hoew ag y mae o rydd; ac felly y mae o leiaf yn bosibl symud yr anifail oddiar orseddfainc bywyd, yr hyn nas gellir ei wneyd yn awr, os yn wir y gellir ei wneyd o gwbl, ond yn unig yn wyneb anhawsterau dirfawr. Fel hyn daw ein syniad am lafur i gyfateb i syniad y Groegwr am y Wladwriaeth: fel y Wladwriaeth, y mae llafur yn bod "nid er mwyn bywyd, ond er mwyn bywyd da." Onid yw'r effeithiau hyn oll yn gydnaws a "meddwl Crist"?

## Nodau Llafur a Brawdoliaeth.

VII.—Ymhellach, rhydd Cydfeddiannaeth amgylchedd gymhwysach i ddysgeidiaeth yr Iesu am olud a nodau llafur a brawdoliaeth. Os, fel y dywed Drummond, "mynegiant o'i amgylchedd" yn unig ydyw dyn, os oes peth gwir yn hyn, yna ennill annhraethol ydyw dod a'r amgylchedd hwn i gywair a dysgeidiaeth Crist.

Yn yr Efengylau ymddengys golud wedi ei gasglu ynghyd fel peth pur beryglus a niweidiol i'r bywyd ysbrydol, fel rhwystr i'n hamcanion puraf a'n gweithredoedd goreu. Ni thwyllir Crist o gwbl gan ei swynion, a gwel ynddo rywbeth a fygythia unoliaeth

a chynnydd ei deyrnas: "Na thrysorwch i chwi drysorau ar y ddaear." Saif bywyd dyn nid yn "amlder y pethau sydd ganddo," ond yn y defnydd a wna o'r hyn sydd ganddo; os er ei fwyn ei hun, eto er ei fwyn ei hun nid fel y diben pennaf ond fel moddion i hyrwyddo cysur yr holl fyd. Syrth gwg yr Iesu ar bentyrru cyfoeth. Gwna Cydfeddiannaeth hyn yn ddianghenraid ac yn anghyfleus. Serch hynny nid ysbeilio yw Cydfeddiannaeth, nid lladrad ydyw. Dywedir i Esgob Derry sylwi fod ysbryd Sosialaeth yn dyweyd: "Dyma ddyn a chanddo fwy na myfi, gadewch i ni ei gymeryd oddiarno"; ond medd Cristionogaeth: "Dyma ddyn a chanddo lai na myfi; bydded i mi roddi rhywbeth iddo." Gair cynhwysfawr iawn yw Sosialaeth, a llawer ystyr iddo, ac feallai fod yn rhywle "Sosialaeth" yn siarad yr iaith a ddyry Esgob Derry iddi. Ond nid hon yw iaith Sosialaeth wyddonol neu Gydfeddiannaeth. Dywed hon: "Dyma'r gwaith mawr o reoli llafur ein gwlad; gadewch i ni ei drefnu fel y caffo pawb ran o'r cyfrifoldeb ac hefyd o'r enillion, gan rannu mor deg ac mor gyfiawn ag y mae modd, nid fel y gwnelo un yr holl waith ac y derbynio arall yr holl elw. Addefir yn rhwydd fod unigoliaeth mewn masnach yn rhoddi cyfleusterau lawer i'r cyfoethog wneyd defnydd o'i eiddo. Gall y miliynydd borthi'r newynog, ddilladu'r noeth, ac iachau'r claf. Gall adeiladu eglwysi cadeiriol, gall waddoli prif-ysgolion, gall roddi llyfr-gelloedd i astudio ynddynt, a gerddi i ymddifyrru ynddynt Ac y mae wedi gwneyd hyn. Tystiolaetha llawer o bethau i'w ddoethineb a'i ddaioni yn rhannu ei gyfoeth er lles y bobl, ac y mae wedi cyfrannu'n helaeth at gynnydd y byd drwy ei haelioni meddylgar. Ond cawn agwedd arall ar y syniad pan ystyriom fod y moddion i gyflawni gweithredoedd dyngarol o'r fath o fewn cyrraedd ychydig bersonau yn unig, ac fod y personau hyn yn ddyledus am y cyfleusterau nid yn unig i nwydau pechadurus dynion, megis meddwdod, chware-damwain a'r cyffelyb, ond hefyd i raddau pur helaeth i anghyfiawnderau gwleidyddol, masnachol, a chymdeithasol teyrnasiad Unigoliaeth. Canys dylid gofyn: Sut y casglwyd y golud ynghyd? A symudwyd terfynnau cymdogion? A falwyd wyneb y tlawd? A ydyw'r llafurwyr yn gorfod gweithio o dan amodau brwnt a chaled? Gwyr pawb fod ein cyfundrefn fasnachol yn ormeswr caled lle y dylai fod yn was, ac yn anghyfiawnder lle y dylai fod yn gynhorthwy. Dyma ddarlun o waith Frederic Harrison:—

"Nid oes gan naw o bob deg o wir gynhyrchwyr cyfoeth y wlad un cartref y gallant ei ystyried yn eiddo sicr iddynt ddim pellach na diwedd yr wythnos; nid oes ganddynt un darn o dir na chymaint ag un ystafell yn eiddo iddynt; nid oes ganddynt ddim o unrhyw werth oddigerth cymaint o hen ddodrefn ag y gellir ei ddodi mewn trol; y mae ganddynt obaith ansefydlog am gyflog wythnosol nad yw ond prin ddigon i'w cadw yn iach; trig y mwyafrif o honynt mewn mannau na thybiai neb yn ddigon da i'w geffyl; mor deneu yw'r mur sydd yn cadw angen draw fel y mae mis o fasnach aflwyddiannus, neu afiechyd neu golled annisgwyliadwy, yn dod a hwy wyneb yn wyneb a newyn a thlodi. Ac islaw y cyflwr hwn, cyflwr cyffredin y gweithiwr mewn tref a gwlad, mae llu mawr o dlodion digartref fel

crwydriaid yn dilyn camrau byddin fawr llafur, yn ffurfio o leiaf un rhan o ddeg o ddosbarth isaf cymdeithas, ac y mae cyflwr y rhai'n yn druenus ac yn dost hyd yr eithaf. Os yw hyn i barhau yn rhan o drefn sefydlog cymdeithas ddiweddar, yna nis gallwn amgen nag ystyried fod gwareiddiad yn dwyn melltith ar ben y mwyafrif mawr o ddynolryw."

Yn awr, er nad yw Cydfeddiannaeth yn profesu diddymu aflendid a chreu seintiau, eto rhydd derfyn ar dlodi, gwna nifer y newynog mor fychan fel y gellir ei adael allan o gyfrif, a darpara ar gyfer cynhaliaeth y claf a'r oedrannus anghenog. Cyflawna lawer o'r gwaith a adewir heddyw i elusen personau unigol, ac yr un modd a Chyngor Trefol Llundain darpara erddi cyhoeddus, gan ychwanegu swynion cerddoriaeth i'r rhai mewn oed a lleoedd chware i'r plant.*

Unwaith yn rhagor gofynnaf: Onid yw hyn oll mewn cywair ag ysbryd a dysgeidiaeth yr Hwn a'n dysgodd i'w weled Ef ei Hun yn y newynog a'r claf, y tlawd a'r drwgweithredwr?

VIII.—Feallai mai mantais fwyaf Cydfeddiannaeth yw y berthynas sy rhyngddi a nodau'r bywyd unigol a chymdeithasol fel y'u gosodir i lawr gan Grist Iesu. Meithrina Cydfeddiannaeth syniad mwy Cristionogol am lafur, fel cyfundrefn yn yr hon y mae pawb yn weithiwr a phob gweithiwr yn llafurio nid er ei fwyn ei hun yn unig ond hefyd er mwyn yr angenrheidiau, cysuron, a'r rhagorfreintiau sydd i'w rhannu rhyngddo ef a holl aelodau cymdeithas. Llafuria dros yr hyn a elwir yn "Wladwriaeth," h.y. dros holl bobl y ddinas neu'r genedl y mae ei llwyddiant o ddyddordeb uniongyrchol iddo, a gwaith yr hon a gyflawnir er budd ei holl gyd-ddynion, ac felly er budd iddo yntau hefyd: cynorthwya yr aelodau gweiniaid, dyry gymorth i'r oedrannus a'r methiantus, ceisia argyhoeddi y drwgweithredwr a'r aflan, gan ystyried hyn oll yn rhan o'i ddyledswydd fel dinesydd.

I athrylith hyblyg gwlad Groeg yr ydym yn ddyledus am y cais cyntaf i ddwyn gofynion y Wladwriaeth a'r person unigol i gymod a'u gilydd. Yr oedd gwyr Groeg wedi eu donio a'r gallu i feirniadu yn fanwl, i gyfuno egwyddorion a ymddanghosai yn groes i'w gilydd, ac i gymodi gofynion gwrthgyferbyniol; nid oedd eu syniadau fyth yn eithafol, yr oedd eu meddwl yn ystwyth, a gallent dorri pob dadl drwy gyfarfod a'u gilydd hanner ffordd mewn dull gwahanol iawn i'r unplygrwydd syml y syrthiasai cenhedloedd y dwyrain yn aberth iddo. Nid rheol gormesdeyrn nac aflywodraeth ychwaith a foddlonai'r Groegwr, ond† "rhyddid o dan drefn." Dyma'r rhyddid a sefydlir ac a deyrnasa pan yr ad-drefnir cyfundrefn llafur ar egwyddorion Cydfeddiannaeth, i gadw cystadleuaeth ffyrnig draw, i ddarparu yn helaethach ar gyfer "yr ymdrech dros eraill," i wneyd llafur corfforol er darparu rheidiau bywyd yn fwy rhwydd a chyson, ac hefyd mor ysgafn ag y mae modd, fel y sicrhant hamdden a seibiant i fywyd uwch y meddwl a'r galon, y darfelydd a'r ysbryd.

* Gwel Fabian Tracts, Nos. 60, 61, 62, etc.

† Gwel, Professor Butcher, *Some Aspects of the Greek Genius* (52 *et seq.*)

Gwyr pawb fod nodau llafur yn ol yr egwyddor "unigol" yn gul, yn isel, ac yn hunanol hyd yr eithaf, ac nid oes gan ddynion amser na chyfleustra i "achub eu henaid," y rhan ddwyfol o'u bywyd hwy ac o fywyd cymdeithas, bywyd o ymdrechion dyrchafedig, o ofal tyner am ddynoliaeth, o ffydd ddiffuant a chariad brwd tuag at Dduw a dyn.

Nod newydd i fywyd a llafur sydd yn eisieu arnom. Plentyn cyfundrefn galed Unigoliaeth ydyw nod presennol Lloegr, ac felly y mae yn annigonol, yn wag ac yn arwain i ddistryw. Ond y mae'r nodau yr amcenir eu cyrraedd yn dra phwysig i gynnydd y teulu, y plwy, a'r Wladwriaeth. Hwynt-hwy yw y nerthoedd a symudant bersonau unigol ymlaen. Rhanna Unigoliaeth gymdeithas i ddosbarthiadau a cheidw hwynt ar wahan i'w gilydd: gwna ddosbarth o daeogion ar un ochr ac o segurwyr diog ar y llall; crea ar un tu fyddin liosog o gaethweision gostyngedig, distaw, a llwfr, yn byw mewn llafur blin a llethol a phryder dibaid; ar y tu arall gwmni bychan a ddioddefa effeithiau buchedd o segurdod niweidiol a blinder parhaus; cynhyrcha'r drefn hon gasineb a dygasedd ar un ochr, a diystyrrwch a dirmyg tuag at ddynoliaeth ar yr ochr arall. Na! gorwedd y nod sydd yn eisieu arnom, ac sydd yn anhepgor i unoliaeth Prydain, yn yr addefiad fod dyn yn gyflawn yn y Wladwriaeth, ar yr un pryd yn aelod o Gymdeithas ac o'r Llywodraeth—"un a reola ac eto a reolir"; a'r nod hwn sydd yn *enaid* Cydfeddiannaeth yn ogystal ag yn *enaid* y datguddiad o frawdoliaeth dyn yng Nghrist Iesu ein Harglwydd, Mab Duw a Mab y dyn.

Yn olaf, fel y ceisiwn ailadeiladu cynllun llafur y wlad ar y sail hon, credaf yn ddiameu y deuwn i weled fod arnom eisieu adnewyddiad dwfn a chyrhaeddfawr o ysbryd Crist ynnom, a gwell amgyffrediad o'i feddyliau Ef, fel y gallom ddifodi'r nwydau a borthant ein cyfundrefn "unigol," ac ysgubo ymaith y pentwr o ddrygau sydd wedi cydgrynhoi o'i hamgylch, ac y gallom ddwyn i berffeithrwydd y cynlluniau cydfeddiannol sydd eisoes wedi eu sefydlu, sef, rhannu'r elw mewn masnach i bawb a gymero ran yn y llafur, cydweithrediad a chyflogiad llafur gan y Cynghorau Trefol neu'r Wladwriaeth.

Daw Cydfeddiannaeth yn ddadl dros fywyd ysbrydol dyfnach. Pe baem yn fwy o Gristionogion, ceisiem fel y Cristionogion cyntaf gyda brwdfrydedd tanbaid wneyd Cymdeithas yn ymgnawdoliad o'r drychfeddwl cydfeddiannol yn hytrach na'r drychfeddwl unigol. Nid oes dim yn dwyn tystiolaeth gadarnach i'r angen am Grist na methiant yr Eglwysi i wrthwynebu drygau'r bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg. Eiseu Crist sydd arnom. Mae goleu yn arwain ac yn lladd. Mae Gwyddoniaeth newydd ein hysbysu mai gelyn sicraf a chyflymaf hadau afiechyd yw goleuni. Crist yw goleuni'r byd. Dengys Ef y ffordd i ni, ac Efe hefyd a ddinystria egin marwolaeth a hadau plaau corfforol a moesol yn ein bywyd masnachol y dyddiau diweddaf hyn, a gwna'r anifail sydd ynnom yn wasanaethwr ufudd o fod yn feistr gormesol i'r ysbryd dynol.

# CHRISTIAN SOCIALIST SOCIETIES.

## THE GUILD OF ST. MATTHEW.

The Guild of St. Matthew, the oldest among the existing English Socialist Societies, was founded on June 29th, 1877. Its objects are—

I.—To get rid, by every possible means, of the prejudices against the Church, her Sacraments and Doctrines; and to endeavour "to justify God to the People."

II.—To promote frequent and reverent worship in the Holy Communion, and a better obedience to the authority of the Church as declared for us in the Book of Common Prayer.

III.—To treat Social and Political Questions in the light of the Incarnation.

In its early days the work of the Guild was largely directed towards combatting the attacks of Secularists on the Faith of the Church. One of the earliest pamphlets of the Guild was entitled "Christian Socialism: by a Radical Parson." Courses of lectures, by members of the Guild, were carried on in many places; and several, who afterwards became well known as Socialist lecturers, owed their first introduction to public speaking to these debates. The Guild in its early days also took an active part in the protest against the denial of constitutional rights to Northampton. A manifesto on "The Church and Socialism" was appended to its Annual Report in 1884, and an address on the same subject and on similar lines was presented to the Lambeth Conference in 1888. More recent manifestoes of the Guild have dealt with such subjects as the Democratization of Chnrch Government; the Duty of the Clergy towards Education, and especially towards Board Schools; and so on. The Guild has published, among other pamphlets, "The Duty of Christian Socialists in the coming London Elections" (George W. E. Russell); "Municipal Socialism" (Rev. Professor Symes); "The Catholicity of the English Church" (Rev. S. D. Headlam); "The Secular Work of Jesus Christ" (Rev. S. D. Headlam); and "Socialism" (Bishop Westcott). There is now a branch of the Guild in Bristol, and local groups in several parts of London. The last list of members (June, 1907) showed 224 members, of whom 85 were in Holy Orders; but the number has since increased considerably. Many services are held in all parts of England in connection with the Guild's Annual Festival (St. Matthew's Day, September 21st). The Annual Meeting is held about the same time, usually in the Large Hall of Sion College. The Warden's "Annual Addresses" for the past dozen years have been published, and afford the best guide to the Guild's history and principles. An Annual Evensong, followed by a supper, is also held annually on St. Peter's Day (June 29th), the anniversary of the Guild's foundation. The constitution was revised and the statement of objects subjected to slight alterations in the autumn of 1906.

There is a terse summary of Christian Socialist principles in a leaflet called "The G. S. M.: What it is and Who should join it."

Clerk: WM. MUNN, 376 & 377 Strand, W.C.

## THE CHRISTIAN SOCIAL UNION.

This society was founded in 1889 by Canon Scott Holland and others. It now consists of about 60 branches, the largest being at London, Oxford, Cambridge, Manchester, Birmingham and Bristol. There is also a large sister society in America and some Colonial branches. The total membership is over 5,000. The President of the Union is the Bishop of Birmingham, and among its leading members are the Bishops of Southwark and Liverpool, Canons Hicks and Barnett, Professors Sanday and Stanton, Archdeacon Wilson, Dr. Fry. Its work is mainly educational, by means of lectures and sermons and a considerable output of pamphlets and books; but other forms of work have been undertaken, *e.g.*, fair lists at Oxford; investigations into

dangerous trades and laundries, with reports thereon and petitions to the Home Secretary. The London Branch has investigated the conditions under which artificial flowers are made, the extent of outwork in the tailoring trade, and the conditions of the fish and fruit trades, which are exempted from the protection of the law. In 1907 it conducted an inquiry as to the causes of infant mortality. A C. S. U. Settlement, Maurice Hostel, has been founded at Hoxton: it consists of two houses, one for men and one for women. Besides printing 28 leaflets summarizing various social questions, the Oxford Branch issues the quarterly *Economic Review*. Several of the Branches have organized series of sermons on social subjects, some of which have been published. The official objects of the C. S. U. (which is a Church society) are as follows:—

I.—To claim for the Christian Law the ultimate authority to rule social practice.

II.—To study in common how to apply the moral truths and principles of Christianity to the social and economic difficulties of the present time.

III.—To present Christ in practical life as the living Master and King, the Enemy of wrong and selfishness, the Power of righteousness and love.

Secretary: Rev. JOHN CARTER, Pusey House, Oxford.

London Branch Secretary: Rev. PERCY DEARMER, 102 Adelaide Road, N.W.

The literature of the Union can be obtained from the Literature Secretary, 102 Adelaide Road, N.W.

## THE CHURCH SOCIALIST LEAGUE.

The C. S. L., formed in June, 1906, has for its object the conversion of the christened people of English-speaking countries to Socialism, "the fixed principle according to which the community shall own the land and capital collectively and administer them co-operatively for the good of all." The League appeals to Church people particularly along the lines of the Church's scriptures, creeds, sacraments and tradition. It consists of clergy and the laity of both sexes. Its membership is rapidly increasing, and it is estimated that C. S. L. members must have addressed at least a thousand Socialist meetings during the winter of 1907-8, besides contributing considerably towards recent Socialist victories. The League also works through the pulpit and Sunday school and chapters and conferences of the clergy, seeking the complete democratization of the National Church. Its official organ is *The Optimist* (quarterly, 6d.; Elliott Stock), and Church Socialist League notes will appear from time to time in *The New Age*. Among its members are: T. Summerbell, M.P.; Revs. Lewis Donaldson, Arnold Pinchard, H. A. Kennedy, Hon. and Rev. James Adderley, The Dean of Jersey, Rev. S. Liberty (St. Deiniol's Library, Hawarden), Fathers Paul Bull and Samuel Healy, Rev. W. H. Frere (Superior, Community of the Resurrection, Mirfield), Cecil E. Chesterton, and Rev. R. W. Cummings. Rev. G. Algernon West (Chairman C. S. L., 1908), St. Thomas' Vicarage, Sunderland; Rev. W. E. Moll, N. A. C., I. L. P. (Deputy Chairman), St. Philip's Vicarage, Newcastle; Rev. Harold Hastings (Secretary), The Manor House, Halton, Lancaster; Rev. Conrad Noel (Organizer), Coggeshall, Essex; Mrs. Mansell Moullin (Treasurer), 69 Wimpole Street, London, W.; George Lansbury (Chairman, London Branch), 103 St. Stephen's Road, Bow, E.; Rev. J. A. Grant (Secretary, London Branch), 36 Becmead Avenue, Streatham, S.W.

FABIAN SOCIETY.—The Fabian Society consists of Socialists. A statement of its Rules and the following publications can be obtained from the Secretary, at the Fabian Office, 3 Clement's Inn, London, W.C.

THIS MISERY OF BOOTS. By H. G. WELLS. Paper cover, design by A. G. Watts. 3d., post free 4d.; 2/3 per doz., post free, 2/7.

FABIANISM AND THE EMPIRE: A Manifesto. 1s. net.

FABIAN ESSAYS IN SOCIALISM. (43rd Thousand.) Paper cover, 1/-; plain cloth, 2/-, post free from the Secretary.

## FABIAN TRACTS and LEAFLETS.

*Tracts, each 16 to 52 pp., price 1d., or 9d. per doz., unless otherwise stated.*
*Leaflets, 4 pp. each, price 1d. for six copies, 1s. per 100, or 8/6 per 1000.*

The Set of 81, 3s.; post free 3/5. Bound in Buckram, 4/6; post free for 5s.

### I.—General Socialism in its various aspects.

TRACTS.—121. Public Service versus Private Expenditure. By Sir OLIVER LODGE. 113. Communism. By WM. MORRIS. 107. Socialism for Millionaires. By BERNARD SHAW. 133. Socialism and Christianity. By Rev. PERCY DEARMER. 78. Socialism and the Teaching of Christ. By Dr. JOHN CLIFFORD. 87. The same in Welsh. 42. Christian Socialism. By Rev. S. D. HEADLAM. 79. A Word of Remembrance and Caution to the Rich. By JOHN WOOLMAN. 75. Labor in the Longest Reign By SIDNEY WEBB. 72. The Moral Aspects of Socialism. By SIDNEY BALL. 69. Difficulties of Individualism. By SIDNEY WEBB. 51. Socialism: True and False. By S. WEBB. 45. The Impossibilities of Anarchism. By BERNARD SHAW (price 2d.). 15. English Progress towards Social Democracy. By S. WEBB. 7. Capital and Land (7th edn. revised 1908). 5. Facts for Socialists (10th edn., revised 1906). LEAFLETS—13. What Socialism Is. 1. Why are the Many Poor? 38. The same in Welsh.

### II.—Applications of Socialism to Particular Problems.

TRACTS.—136. The Village and the Landlord. By EDWARD CARPENTER. 135. Paupers and Old Age Pensions. By SIDNEY WEBB. 131. The Decline in the Birth-Rate. By SIDNEY WEBB. 130. Home Work and Sweating. By Miss B. L. HUTCHINS. 128. The Case for a Legal Minimum Wage. 126. The Abolition of Poor Law Guardians. 122. Municipal Milk and Public Health. By Dr. F. LAWSON DODD. 120. "After Bread, Education." 125. Municipalization by Provinces. 119. Public Control of Electrical Power and Transit. 123. The Revival of Agriculture. 118. The Secret of Rural Depopulation. 115. State Aid to Agriculture: an Example. 112. Life in the Laundry. 98. State Railways for Ireland. 124. State Control of Trusts. 86. Municipal Drink Traffic. 85. Liquor Licensing at Home and Abroad. 84. Economics of Direct Employment. 83. State Arbitration and the Living Wage. 48. Eight Hours by Law. 23. Case for an Eight Hours Bill. 47. The Unemployed. By JOHN BURNS, M.P. LEAFLET.—104. How Trade Unions benefit Workmen.

### III.—Local Government Powers: How to use them.

TRACTS.—137. Parish Councils and Village Life. 117. The London Education Act, 1903: how to make the best of it. 109. Cottage Plans and Common Sense. By RAYMOND UNWIN. 76. Houses for the People. 99. Local Government in Ireland. 82. Workmen's Compensation Act. New edition for the Act of 1906. 62. Parish and District Councils. 54. The Humanizing of the Poor Law. By J. F. OAKESHOTT. LEAFLETS.—68. The Tenant's Sanitary Catechism. 71. Same for London. 134. Small Holdings, Allotments and Common Pastures: and how to get them. FABIAN MUNICIPAL PROGRAM, FIRST SERIES (Nos. 32, 37). Municipalization of the Gas Supply. A Labor Policy for Public Authorities. SECOND SERIES (Nos. 90 to 97). Municipalization of Milk Supply. Municipal Pawnshops. Municipal Slaughterhouses. Women as Councillors. Municipal Bakeries. Municipal Hospitals. Municipal Steamboats.—Second Series in a red cover for 1d. (9d. per doz.); separate leaflets, 1/- per 100.

**IV.—Books.** 132. A Guide to Books for Socialists. 29. What to Read on social and economic subjects. 6d. net. 129. More Books to Read. Supplement to October, 1906.

### V.—General Politics and Fabian Policy.

127. Socialism and Labor Policy. 116. Fabianism and the Fiscal Question: an alternative policy. 108. Twentieth Century Politics. By SIDNEY WEBB. 70. Report on Fabian Policy. 41. The Fabian Society: its Early History. By BERNARD SHAW.

**VI.—Question Leaflets.** Questions for Candidates: 20, Poor Law Guardians. 28, County Councils, Rural. 102, Metropolitan Borough Councils.

BOOK BOXES lent to Societies, Clubs, Trade Unions, for 10s. a year.

Printed by G. Standring, 7 Finsbury St., London, E.C., and published by the Fabian Society, 3 Clement's Inn, Strand, London W C.